CYNGOR CYMUNED LLANARTHNE COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Medi 2024 o Gyngor Cymuned Llanarthne a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Llanarthne ar 10/09/2024 am 19.00.

88/2024-2025 Presennol.
Cynghorwyr: A Isaac (Cadeirydd), G Jones, E Jenkins, R Pole.

Clerc.

Cyfieithydd – H Glenister.

89/2024-2025 I dderbyn ymddiheuriadau.
Cynghorwyr: Cynghorydd Sir H Jones, N Thomas. M Jones.

90/2024-2025 Derbyn datganiadau o ddiddordeb.
Dim.

91/2024-2025 Cyfle i'r cyhoedd annerch y Cyngor ar eitemau ar yr agenda.
Dim.

92/2024-2025 Ystyried a nodi unrhyw bryderon plismona a/neu ddiogelwch ffyrdd.
Dywedodd y Cyng G Jones ei fod wedi rhoi gwybod i Gyngor Sir Caerfyrddin am dyllau yn y ffordd ger Penallt Uchaf a Neuadd Bentref Llanarthne. **Penderfynwyd** nodi.
Adroddodd y Cyng A Isaac nad oedd dwy golofn golau wedi'u newid yn ystod y newidiadau LED. **Penderfynwyd** i'r Cyng A Isaac anfon lleoliadau What3words i'r Clerc i adrodd.
Adroddodd y Cyng A Isaac fod cerbydau'n achosi rhwystr ger cyffordd sy'n ffinio â'r B4300 ac y gallai traffig sy'n mynd heibio achosi gwrthdrawiad o bosibl. **Penderfynwyd** i'r Cyng A Isaac anfon lleoliadau What3words i'r Clerc i adrodd.

93/2024-2025 Materion y Cyngor Sir - Cynghorydd Sir A Davies.
Dim.

94/2024-2025 Derbyn Adroddiadau'r Cadeirydd.
Mynegodd y Cadeirydd ei llongyfarchiadau i Mr Gethin James, Llanarthne ar gael ei dderbyn i'r orsedd yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2025. Bydd enwau'r unigolion a fydd yn cael eu derbyn i'r Orsedd gydag anrhydedd eleni yn cael eu hanrhydeddu yn y Brifwyl yn Rhondda Cynon Taf. am eu cyfraniad arbennig i Gymru, y Gymraeg ac i'w cymunedau lleol. **Penderfynwyd** i'r Clerc ysgrifennu llythyr llongyfarch.
Mynegodd y Cadeirydd ei llongyfarchiadau i aelodau pwyllgor Sioe Bentref Llanarthne am gynnal digwyddiad llwyddiannus.

Ar 10/09/2024 aeth aelodau o Gyngor Cymuned Llanarthne i Bremenda Isaf, Llanarthne i ddarganfod mwy am y gweithgaredd ar y fferm a Partneriaeth Bwyd Sir Gar. Cafwyd profiad difyr ac addysgiadol gan yr holl aelodau oedd yn bresennol.
Partneriaeth bwyd lleol Sir Gaerfyrddin yw Bwyd Sir Gâr a'i nod yw datblygu system fwyd leol lewyrchus, gynaliadwy, gynhwysol a gwydn. Mae'n dod â phartneriaid

ynghyd o ystod o sectorau gwahanol i helpu i fynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, gan ymdrechu i sicrhau bwyd da i bawb. Mae partneriaid allweddol yn Sir Gaerfyrddin yn cynnwys:

- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin (CAVS)
- Cogydd 24
- Rhwydwaith Bwyd Sir Gaerfyrddin
- Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol
- Synnwyr Bwyd Cymru
- Castell Howell

Bwyd Sir Gâr Food yn aelod o'r Rhwydwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy ac mae'n lle sydd wedi ennill gwobr Efydd.
Isod mae dolen i wefan y bartneriaeth bwyd. -
Bwyd Sir Gâr Food | Partneriaeth Bwyd Lleol | Sir Gaerfyrddin (bwydsirgarfood.org)

95/2024-2025 Cadarnhau a Llofnodi Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 09/07/2024.
Penderfynwyd cadarnhau cofnodion 09/07/2024. Cynigwyd gan y Cyng E Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng G Jones.

96/2024-2025 Materion yn codi o'r cofnodion uchod.
Dywedodd y Clerc wrth aelodau'r Cyngor fod yr holl faterion i'w datrys wedi eu gweithredu ac os derbyniwyd gohebiaeth, anfonwyd copi o'r Ebost at bob aelod er gwybodaeth.
Cadarnhaodd y Cyng R Pole ei bod wedi cwblhau'r hyfforddiant Cod Ymddygiad ar 10/09/2024.

97/2024-2025 Nodi gohebiaeth neu restru i'w hystyried yng nghyfarfod y Cyngor sydd i ddod.
(Mae'r holl ohebiaeth berthnasol yn cael ei e-bostio at aelodau'r cyngor ar yr adeg y'i derbynnir a dim ond yn cael ei ddwyn gerbron y cyfarfod os oes angen neu os gwneir cais penodol gan yr aelodau neu'r Clerc).
Derbyniwyd yr e-bost canlynol gan aelod o'r gymuned ar 22/08/2024 -
"Rwy'n ysgrifennu i fynegi pryder am y cyflymder gormodol drwy bentref Llanarthne mewn ardal 20mya
Rydym wedi rhedeg emporiwm bwyd Wrights ers deng mlynedd bellach ac mae'r traffig sy'n mynd heibio ein mynedfa flaen sy'n agor i'r ffordd fawr bob amser wedi bod yn bryder i ni gyda digon o deuluoedd ifanc a chwsmeriaid oedrannus yn dod i mewn ac yn gadael ein hadeilad.
Roeddem mor falch pan ddaeth y cyfyngiadau 20 mya i mewn ac yn teimlo'n dawel ein meddwl fod hwn yn syniad gwych i Lanarthne. Fodd bynnag, er y gallai fod wedi cael effaith ar rai, mae'r rhan fwyaf o'r traffig sy'n mynd heibio ymhell uwchlaw'r terfyn, yn geir preifat, faniau a'r tractorau amaethyddol mawr sy'n gweithio yn yr ardal sy'n rasio drwy roi pobl leol a'n cwsmeriaid mewn perygl.
Nid wyf yn ymwybodol y bu unrhyw gamerâu cyflymder na phatrolau yn y pentref yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf felly mae'r cyfyngiadau cyflymder hyn yn cael eu hanwybyddu'n llwyr.
A oes unrhyw fesurau rheoli cyflymder y gellid eu rhoi ar waith neu unrhyw gynlluniau ar gyfer camera cyflymder neu fan gwirio cyflymder rheolaidd?

Os gwelwch yn dda gadewch i mi wybod eich barn".
Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi ymateb i'r aelod o'r gymuned ac wedi adrodd y pryder i Go-Safe. **Penderfynwyd** nodi.

Derbyniwyd yr e-bost canlynol gan aelod o'r gymuned ar 31/08/2024 -
"Rwyf wedi darllen yn ddiweddar fod Cyngor Sir Caerfyrddin yn bwriadu gwario llawer o arian ar wella cyflwr ffyrdd y sir. A gaf i ofyn yn garedig i Gyngor Cymuned Llanarthne annog rhywfaint ohono i fynd ar y B4300 drwy Gapel Dewi, yn enwedig y darn rhwng Gerynant Garage a Neuadd Capel Dewi, SA32 8AD.
Awgrymodd y Cyng E Jenkins bod y cyngor cymuned yn cefnogi'r cais ac yn cynnwys ffyrdd a lonydd eraill o fewn yr ardal. Cytunodd holl aelodau'r cyngor. **Penderfynwyd** i'r Clerc gysylltu â'r adran berthnasol a'r Cynghorydd Sir A Davies.

Atgoffodd y Clerc aelodau'r cyngor am y Prynhawn yn Nigwyddiad Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru ar 05/11/2024 a bod rhaid iddynt ymateb fel unigolion os ydynt yn dymuno mynychu. **Penderfynwyd** nodi.

98/2024-2025 Cynllunio.
Dim gwrthwynebiadau i'r cais cynllunio canlynol. Cynigwyd gan y Cyng R Pole ac eiliwyd gan y Cyng A Isaac.
PL/08079- Rhyddhau Amodau 3 a 4 ar **PL/07678** (CEMP ac Arolwg Ffotograffig) - Abbey Farm, Llanarthne, Caerfyrddin, SA32 8LJ.

99/2024-2025 Taliadau.
Cafodd y taliadau isod eu hardystio yng nghyfarfod mis Gorffennaf a'u cadarnhau yng nghyfarfod mis Medi. Copïau o anfonebau a anfonwyd at bob aelod yn electronig cyn talu am awdurdodiad. Cynigwyd gan y Cyng G Jones ac eiliwyd gan y Cyng R Pole.

Dull Talu	Dyddiad	Cyflenwyr a Manylion	Swm £ gan gynnwys TAW
Ar-lein	30/07/2024	Swyddfa'r Post – Archwilio Cymru	8.95
Ar-lein	30/07/2024	Un Llais Cymru – Aelodaeth 2024-2025	150.00
Ar-lein	30/07/2024	Bwydydd Castell Howell Cyf - 706539	48.96
Ar-lein	27/08/2024	Cymdeithas Gymunedol Capel Dewi – Cyfarfod Gorffennaf	40.00
Ar-lein	27/08/2024	Gwasanaethau Coed Dinefor - 003	125.00

100/2024-2025 I nodi derbynebau.
20/08/2024 Cyngor Sir Caerfyrddin – Praesept 2 - £8621.23.

101/2024-2025 Ystyried y Cyd-Opsiwn o aelodau ychwanegol.
Cyhoeddodd y Clerc er gwaethaf hysbysebu am aelod cyngor cymuned ar yr hysbysfyrddau cymunedol, gwefan y cyngor ac ymdrechion aelodau'r cyngor ers dros 12 mis, nid oedd unrhyw aelod o'r gymuned wedi mynegi diddordeb mewn cyflawni'r rôl. Dywedodd y Clerc ei bod yn bwysig i aelod arall ymuno â'r cyngor cymuned gan fod angen cworwm o bedwar aelod o'r cyngor i gynnal cyfarfod. Bu aelodau'r Cyngor yn trafod y mater, a phenderfynwyd gosod hysbyseb ar dudalen Facebook Capel Dewi

a Neuadd Bentref Llanarthne. **Penderfynwyd** i'r Clerc anfon hysbyseb ymlaen at y bobl berthnasol.

102/2024-2024 I drafod Gwobrau Cymunedol.
Anfonodd y Cyng G Jones fformat arfaethedig o ffurflen enwebu at holl aelodau'r cyngor ar 08/09/2024 i'w hadolygu cyn y cyfarfod. Trafododd aelodau'r Cyngor y ffurflen enwebu ac roeddent yn hapus i gefnogi'r fformat arfaethedig. **Penderfynwyd** i'r Clerc drafod y ddogfen arfaethedig gydag aelodau Cyngor Cymuned Llanddarog fel rhai sy'n gweithio ar y cyd.

103/2024-2025 I drafod adroddiad Cynnal Asedau.
Anfonodd y Clerc copi o'r Gofrestr Asedau a'r Adroddiad Cynnal a Chadw at holl aelodau'r Cyngor ar 09/09/2023 mewn e-bost. Roedd yr adroddiad yn cynnwys rhestr ddiweddar o holl asedau Cyngor Cymuned Llanarthne, eu cyflwr, eu gwerth archwilio a gwerth yswiriant. Dywedodd y Clerc fod offer y cae chwarae wedi eu tynnu oddi ar y gofrestr gan fod yr offer wedi ei roddi i Neuadd Bentref Llanarthne. Roedd y meinciau newydd yn Ger Y Llan a llwybr GFGC hefyd wedi'u hychwanegu at y rhestr. Dywedodd y Clerc nad oedd angen unrhyw waith. **Penderfynwyd** nodi.

104/2024-2025 Cynnal fforwm er mwyn i aelodau godi adroddiadau/cwestiynau drwy'r Cadeirydd.
Awgrymodd y Cyng R Pole y dylid cynnal cyfran o gyfarfodydd cynghorau cymuned ar-lein er mwyn galluogi aelodau'r cyngor ac aelodau'r gymuned nad ydynt yn gallu mynychu cyfarfodydd yn bersonol i fod yn bresennol. Trafododd holl aelodau'r cyngor a oedd yn bresennol y cynnig a dywedodd y Clerc fod cyfarfodydd hybrid yn bosibl yn Neuadd Bentref Llanarthne, ond nid yn Neuadd Bentref Capel Dewi gan nad oedd Wi-Fi na chyfleusterau ar gael. **Penderfynwyd** i'r Clerc gysylltu â Neuadd Bentref Capel Dewi i ofyn a oedd cyfleusterau hybrid wedi'u cynllunio yn y dyfodol. Cynigiwyd y rota a ganlyn gan y Cyng R Pole ac eiliwyd gan y Cyng A Issac tan 30/04/2025.

ATODLEN DDIWYGIEDIG CYFARFODYDD Y CYNGOR 2024-2025

Hydref 2024	**Neuadd Capel Dewi**
Tachwedd 2024	**Neuadd Llanarthne**
Rhagfyr 2024	**Ar-lein**
Ionawr 2025	**Neuadd Llanarthne**
Chwefror 2025	**Neuadd Capel Dewi**
Mawrth 2025	**Neuadd Llanarthne**
Ebrill 2025	**Ar-lein**
Mai 2025 (gan gynnwys Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol)	**Neuadd Llanarthne**

Gellir galw cyfarfodydd eraill yn ystod y flwyddyn yn ôl yr angen

Llongyfarchodd y Cyng G Jones a diolchodd i bwyllgor Sioe Bentref Llanarthne am gynnal digwyddiad llwyddiannus a diolchodd i'r Clerc am gwblhau'r holl waith angenrheidiol i'r paneli gwybodaeth cyn y digwyddiad.

105/2024-2025 Yn Camera 20.18.

Gadawodd y rhai nad oeddent yn aelodau o'r Cyngor Cymuned, neu'r Clerc y cyfarfod – i beidio â dychwelyd. Mae'r gwaharddiad oherwydd bod materion personél / staffio yn cael eu trafod.

106/2024-2025 Rhediad cyflog staff Gorffennaf – Medi 2024.
Adroddodd y Clerc symiau'r gyflogres ar lafar i holl aelodau'r cyngor. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a chadarnhau taliad y symiau a gyflwynwyd. Cynigwyd gan y Cyng G Jones ac eiliwyd gan y Cyng E Jenkins.
Adroddodd y Clerc y dylid ychwanegu cyfradd chwyddiant Ionawr 2024 o 4.0% (CPI) at ffigyrau lwfansau'r Clerc o 01/04/2024. Cytunodd holl aelodau'r cyngor. **Penderfynwyd** nodi. Cynigwyd gan y Cyng R Pole ac eiliwyd gan y Cyng G Jones.

107/2024-2025 Cyfarfod Nesaf.
Dyddiad y cyfarfod nesaf i'w gynnal yn Neuadd Bentref Capel Dewi – 08/10/2024 am 19.00.

108/2024-2025 Daeth y Cyfarfod i ben am 20.15.

Cadeirydd

_____

Dyddiad

_____